Atal damweiniau i blant ar ffermydd

Mae hwn yn fersiwn gwe-gyfeillgar o daflen AS10W(rev3), a adolygwyd 09/08

Cyflwyniad

Mae gan amaethyddiaeth un o'r cyfraddau anafiadau angheuol uchaf o unrhyw ddiwydiant ym Mhrydain Fawr, ond dyma'r unig ddiwydiant risg uchel sy'n gorfod ymdrin â phresenoldeb parhaol plant. Mae ffermydd yn gartrefi yn ogystal â gweithleoedd, a gall ymwelwyr, gan gynnwys plant, fod yn bresennol ar ffermydd hefyd.

Dros y 10 mlynedd ddiwethaf, mae 31 o blant a phobl ifanc o dan 16 oed wedi marw mewn digwyddiadau sy'n gysylltiedig â gwaith mewn amaethyddiaeth, yn ogystal â 12 arall rhwng 16 a 18 oed.

Yn ystod yr un cyfnod o 10 mlynedd, mae llawer o blant hefyd wedi cael anafiadau megis colli coes neu losgiadau difrifol.

Nid yw'r ffyrdd y mae plant yn cael eu lladd yn amrywio fawr ddim o flwyddyn i flwyddyn. Achosion mwyaf cyffredin marwolaeth ac anafiadau difrifol yn ystod y degawd diwethaf oedd:

- syrthio o gerbydau;
- cael eu taro gan gerbydau neu wrthrychau a oedd yn symud;
- dod i gysylltiad â pheiriannau;
- gyrru cerbydau;
- syrthio o uchder;
- boddi a mygu;
- gwenwyno;
- tân;
- dod i gysylltiad ag anifeiliaid.

Roedd y plant a fu farw yn:

- cael eu cludo fel teithwyr ar beiriannau a pheirianwaith amaethyddol;
- gweithio/helpu o amgylch y fferm;
- chwarae heb oruchwyliaeth;
- tresmasu; neu
- nid oeddynt yn cael eu goruchwylio'n briodol gan oedolion.

Ar gyfer y prif feysydd risg, mae'r daflen hon yn:

- rhoi canllawiau ymarferol ar sut i leihau'r risg y caiff plant o dan 13 oed a phlant hŷn o dan yr oedran gadael ysgol gofynnol (16 fel arfer) eu hanafu;
- nodi tasgau a gweithrediadau sy'n rhy beryglus i blant a phobl ifanc eu gwneud ac sy'n cynnwys enghreifftiau o ddamweiniau go iawn – sydd yn aml yn cynnwys rhiant yn lladd ei blentyn ei hun; ac yn
- eich helpu i gydymffurfio â dyletswyddau cyffredinol Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974, Rheoliadau Atal Damweiniau i Blant mewn Amaethyddiaeth 1998 (PACAR), a Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (y Rheoliadau Rheoli).

Mae'r daflen hon yn rhoi rhywfaint o gyngor ar gydymffurfio â gofynion asesu risg y Rheoliadau Rheoli. Ceir cyngor manwl ar y gofynion hynny a detholiadau o'r ddeddfwriaeth uchod yn y Cod Ymarfer Cymeradwy (ACOP) *Preventing accidents to children in agriculture* (gweler 'Rhagor o wybodaeth').

Plant o dan 13 oed

Er bod rhieni'n gyfrifol am atal eu plant rhag crwydro i mewn i ardaloedd lle y gallant fod mewn perygl neu dresmasu arnynt, cofiwch fod yn rhaid i bob oedolyn sy'n gweithio mewn amaethyddiaeth – cyflogwyr, cyflogeion, contractwyr, neu weithwyr eraill ar ymweliad – gymryd cyfrifoldeb am ddiogelwch plant.

Nodwch beth allai roi plant mewn perygl

Roedd bachgen tair blwydd oed yn chwarae yn y buarth. Roedd clwyd haearn yn pwyso yn erbyn wal gweithdy yn aros i rywun osod colynnau arni. Dringodd y bachgen i fyny ffyn y glwyd a chwympodd y glwyd gan ei wasgu.

Efallai na fyddwch yn ymwybodol o'r risgiau a welwch bob dydd. Gall fod risgiau i blant nad ydynt yn risgiau i oedolion, megis hen glwyd a adawyd yn pwyso yn erbyn wal. Pan fyddwch yn penderfynu beth all achosi niwed i blant, gall fod yn ddefnyddiol gofyn i gynrychiolydd diogelwch, cyflogai, ffrind neu gymydog edrych o amgylch eich fferm – mae'n syndod pa beryglon a risgiau y bydd llygaid gwahanol yn eu gweld. Cofiwch ei bod yn ddyletswydd arnoch i reoli unrhyw beryglon a risgiau a nodir.

Yn aml mae'n werth edrych ar y peryglon gosodedig yn eich buarth, eich adeiladau allan a'ch storfeydd. Bydd y rhain yn cynnwys, er enghraifft, glwydi wedi'u gosod a heb eu gosod, ysgolion sefydlog a chludadwy, baddonau trochi defaid, lagynau slyri, seilos grawn, storfeydd bwyd, peiriannau sy'n pwyso yn erbyn waliau ac ati, peiriannau sy'n cael eu cynnal a'u cadw, gwasgfeydd gwartheg, mannau storio mewn llofftydd, clampiau silwair, ysguboriau, corau gwartheg a thai gwydr.

Wedyn dylech fynd drwy eich blwyddyn waith i nodi'r holl beryglon a all godi, ee mae gweithgarwch gwneud silwair, cludo grawn a gweithgarwch fferm tebyg ar adegau prysur iawn yn aml yn cyd-daro â gwyliau'r ysgol.

Mae HSE yn cynhyrchu dull asesu risg am ddim i ffermydd, y gellir ei anfon atoch ar ddisg neu ei lwytho i lawr o'n gwefan: www.hse.gov.uk/agriculture/assessment/index.htm. Mae'n cynnwys adran ar ddiogelwch plant.

A all plant gyflawni tasgau syml ar y fferm?

Mae casglu wyau, er enghraifft, yn aml yn cael ei ystyried yn weithgaredd diogel a hawdd y gellir caniatáu i blant ei gyflawni ar eu pen eu hunain, ond gall fod peryglon nad ydych wedi meddwl amdanynt.

Mae angen i chi ystyried o hyd beth mae tasg mewn gwirionedd yn ei olygu. Er enghraifft:

- Os caniateir i ieir nythu'n rhydd o amgylch y fferm, i ble y gall plant fynd i chwilio am wyau?
- A fydd angen iddynt ddringo i fyny rhywle gan ddefnyddio dwy law a dringo i lawr gan ddefnyddio un llaw?
- A fyddant yn croesi mannau gweithio lle mae cerbydau'n symud?
- A fyddant yn mynd i mewn i gorlannau anifeiliaid?
- A yw plant iau yn cael eu goruchwylio ddigon?

Roedd bachgen dwyflwydd oed yn bwydo ieir gyda'i fam, ond sleifiodd ymaith. Clywodd ei lais yn dod o'r cwt ieir lle'r oedd wedi mynd i gasglu rhai wyau. Dringodd ar y blychau dodwy a syrthiodd y blychau ar ei frest.

A ydych wedi meddwl am bopeth a all achosi niwed difrifol?

Ystyriwch y pwyntiau canlynol:

- A oes plant yn byw ar y fferm neu'n agos ati?
- Pa drefniadau y gallwch eu gwneud i sicrhau y gofelir am blant os na fydd rhieni na gwarcheidwaid ar gael, ee am eu bod yn gweithio yn y cae i ffwrdd oddi wrth eu plant?
- Pa weithgareddau neu dasgau ar eich fferm a allai eu rhoi mewn perygl?
- Pa gyfarpar gwaith a ddefnyddir gennych, megis peirianwaith ac a all y gweithredwr weld yn glir ohono ar bob ochr?
- Pa risgiau sy'n gysylltiedig â chynllun y gweithle, megis corneli dall neu lagynau slyri?
- Pa rannau o'r fferm a allai fod yn arbennig o ddeniadol i blant, megis pentyrrau o fêls a chorlannau anifeiliaid?
- Beth yw'r risgiau sy'n gysylltiedig â sylweddau peryglus megis bacteria a chemegion?
- Sut rydych yn trefnu ac yn rheoli eich gweithgareddau gwaith, gan gynnwys oedran a chyfrifoldeb gweithwyr eraill? A ydych yn defnyddio contractwyr, nad ydynt o bosibl yn gyfarwydd â'r risgiau ar eich fferm?
- A fydd plant yn ymweld â'r fferm drwy wahoddiad (ee i weld ffrindiau neu fel parti ysgol) neu heb wahoddiad (ee tresmaswyr)?

Cofiwch nad oes gan blant ond ymwybyddiaeth gyfyngedig o risgiau, a'u bod yn anaeddfed yn gorfforol ac yn feddyliol.

Rheoli'r risgiau

A oes plant yn byw ar y fferm neu'n agos ati?

Os oes dylech:

- ddarparu lle chwarae â ffens gadarn o bob tu iddo lle y ceir digon o weithgareddau i gadw plant yn brysur;
- cadw plant i ffwrdd oddi wrth weithgareddau ffermio a thraffig gwaith lle y bo'n bosibl;
- sicrhau bod pawb sy'n gweithio ar y fferm yn gwybod y dylent roi'r gorau i weithio ar unwaith os bydd plentyn heb oruchwyliaeth yn ymddangos yn sydyn yn y man gwaith ac y dylent fynd â'r plentyn i rywle diogel;
- sôn wrth y plant, os ydynt yn ddigon hen, am y peryglon y dylent gadw llygad ar agor amdanynt a'r rhannau o'r fferm nad ydynt yn cael mynd iddynt;
- rhoi arwyddion rhybudd mewn mannau peryglus a sicrhau bod y plant yn gwybod beth maent yn ei olygu.

Os byddwch yn defnyddio contractwyr nad ydynt yn gyfarwydd â'ch gweithle, dylech:

- roi cyfarwyddiadau clir iddynt ynglŷn â rhoi'r gorau i weithio a sicrhau bod y man gwaith yn ddiogel os bydd pobl ifanc a phlant yn dod i mewn i'r man gwaith heb ganiatâd;
- sicrhau eich bod wedi cytuno ar y man gwaith â hwy ac ar ffyrdd o atal plant rhag mynd i mewn iddo heb ganiatâd;
- dweud wrthynt beth i'w wneud i sicrhau bod plant yn cael eu dychwelyd yn ddiogel i reolaeth oedolyn priodol;
- ystyried unrhyw rwystrau iaith neu rwystrau diwylliannol wrth ddefnyddio gweithwyr mudol – efallai na fyddant yn ystyried bod presenoldeb plant yn risg.

A allaf fynd â'm plant i'r gwaith gyda fi?

Gall unrhyw riant ei chael yn anodd gwneud trefniadau gofal plant. Fodd bynnag, ni waeth pa mor ddeniadol ydyw, nid mynd â hwy i'r gwaith gyda chi yw'r ateb. Er enghraifft, mae'n anghyfreithlon cludo plant o dan 13 oed yng nghaban tractor ond mae rhai rhieni yn dal i dorri'r gyfraith. Nid yw byth yn ddiogel cludo plentyn yn y caban.

Bron bob blwyddyn, mae gwaith ffermio yn arwain at o leiaf un plentyn yn cael ei ladd gan ei rieni ei hun neu gan aelod agos o'r teulu. Mae'r rhan fwyaf o'r plant o dan bump oed sy'n cael eu lladd mewn damweiniau ar ffermydd gydag oedolyn ar y pryd. Mae'n anodd goruchwylio plant, yn enwedig plant bach, pan fyddwch yn gwneud gwaith lle y mae angen i chi ganolbwyntio'n ofalus.

A'i fam wrth y llyw: Bu farw plentyn dwyflwydd oed ar ôl syrthio allan o ffenestr gefn tractor.

A'i thad wrth y llyw: Roedd merch fach bedair blwydd oed wedi bod yn teithio yn y caban pan gyrhaeddodd ei mam y cae i fynd â hi adref. Wrth iddi fynd i ymuno â'i mam, gyrrodd ei thad i ffwrdd a mynd drosti gan ei lladd.

A'i daid wrth y llyw: Syrthiodd plentyn pum mlwydd oed allan o ddrws y tractor ac aeth rholer drosto. Anafwyd y plentyn yn ddifrifol ond ni fu farw.

A'i chwaer wrth y llyw: Disgynnodd o'r tractor i drin da byw, gan adael yr allweddi yn y twll tanio a'r injan yn rhedeg. Penderfynodd plentyn tair blwydd oed a adawyd yn y caban ddisgyn hefyd a bu farw drwy fynd yn sownd mewn siafft PTO heb giard.

Beth am ddysgu o brofiad?

Nid yw rheoliadau Iechyd a Diogelwch yn atal dysgu o brofiad. Gellir gwneud hyn mewn ffordd gynlluniedig â goruchwyliaeth uniongyrchol. Nid oes dim o'i le ar blentyn yn gwylio'r hyn rydych yn ei wneud ar yr amod:

- nad yw'r dasg yn un beryglus yn ei hanfod;
- bod y plentyn yn cael ei oruchwylio gan berson gwahanol i'r un sy'n gwneud y dasg;
- bod y plentyn yn cael ei gadw mewn lle diogel.

Pan adawir plant ar eu pen eu hunain, dylech ddarparu lle diogel neu ardd lle y gallant chwarae. Gweithle yw buarth ac nid lle chwarae.

Cerbydau a pheiriannau

Cerbydau a pheiriannau sy'n creu'r risg fwyaf i blant ac mae'n debyg mai dyma'r agwedd ar fywyd fferm sydd fwyaf deniadol i blant hŷn. Dyma'r risgiau y mae dyletswyddau cyfreithiol penodol ar eu cyfer.

Gwahardd gyrru cerbydau a pheiriannau

Mae'n anghyfreithlon caniatáu i blentyn o dan 13 oed deithio ar beiriannau amaethyddol hunanyredig (megis tractorau) a pheiriannau fferm penodol eraill neu eu gyrru pan fyddant yn cael eu defnyddio i gyflawni gweithrediadau amaethyddol neu pan fyddant yn mynd i safle'r cyfryw weithrediadau neu oddi yno.

Gwahardd plant rhag teithio ar beiriannau, cerbydau neu offer

Ni ellir cludo unrhyw blentyn o dan 13 oed ar dractor, peiriant amaethyddol hunanyredig, na pheiriant na theclyn sydd wedi'i osod ar dractor neu gerbyd arall neu sy'n cael ei halio neu ei yrru ganddo, gan gynnwys peiriant neu declyn amaethyddol a dynnir gan geffyl.

Nid yw plant yn ddiogel am y rheswm syml eu bod mewn caban – gallant syrthio o gabanau drwy ddrysau sy'n agor yn ddamweiniol, ffenestri cefn, neu yn ystod argyfyngau ac maent yn gwneud hynny. Pan fyddant yn disgyn o'r caban mae'n ddigon hawdd i'r peiriant fynd drostynt wrth iddo symud i ffwrdd. Gall plant hefyd beri risg i weithredwyr pan fyddant yn gadael y safle gyrru (ee i agor clwydi) drwy weithio rheolyddion megis breciau parcio, liferi hydrolig ac ati, a gallant dynnu sylw'r gweithredwr mewn argyfwng.

Syrthiodd merch ifanc o gaban tractor pan oedd yn gyrru ar hyd y ffordd. Aeth y tractor dros ddarn garw gan achosi iddi golli ei balans, taro handlen y drws a syrthio drwy'r drws a oedd yn agor. Roedd angen iddi gael 30 o bwythau yn ei phen, torrwyd ei phelfis, gwnaed twll yn ei phledren ac roedd wedi'i pharlysu dros dro.

Roedd bachgen wyth mlwydd oed yn cael ei gludo yng nghaban tractor ei dad ar hyd lôn fferm. Roedd rhan uchaf drws y caban wedi'i chau'n sownd ond roedd y glicied ar y rhan isaf ar goll. Roedd y bachgen yn sefyll yng nghafn traed yr ochr i mewn pan agorodd y drws yn annisgwyl a syrthiodd o dan yr olwyn ôl.

Roedd bachgen wyth mlwydd oed a'i ddau frawd yn teithio mewn tractor a oedd yn cael ei yrru gan eu tad. Roedd y tractor yn halio rholer â balast dŵr. Syrthiodd y bachgen o'r tractor a chafodd anafiadau angheuol i'w ben pan aeth y rholer drosto.

Ystyrir bod cerbydau sy'n addas ar gyfer pob math o dir (ATVs neu feiciau cwad) yn beiriannau amaethyddol hunanyredig pan gânt eu defnyddio mewn gweithrediadau amaethyddol. **Felly mae'n anghyfreithlon iddynt gael eu gyrru at ddibenion gwaith gan blant o dan 13 oed.** Mae hefyd yn anghyfreithlon cludo plentyn fel teithiwr. Edrychwch ar yr adran 'Cerbydau sy'n addas ar gyfer pob math o dir' yn ddiweddarach yn y daflen hon a thaflen wybodaeth AIS33 HSE am ragor o wybodaeth (gweler 'Rhagor o wybodaeth').

Roedd bachgen 12 mlwydd oed yn gyrru cerbyd sy'n addas ar gyfer pob math o dir (ATV). Gwyrodd i osgoi ffos a throdd yr ATV drosodd. Syrthiodd oddi ar y cerbyd, cafodd ei ddal oddi tano a boddodd yn y ffos. Cafwyd yn ddiweddarach bod y breciau yn ddiffygiol.

Roedd bachgen pum mlwydd oed yn eistedd rhwng coesau ei dad ar ATV. Trawodd yr ATV, a oedd yn dringo rhiw serth, dwll cwningen a thaflwyd y tad a'r mab oddi ar y cerbyd. Nid oedd yr un ohonynt yn gwisgo penwisg amddiffynnol. Roedd angen i'r tad gael pwythau ar gyfer anaf i'w ben, a thorrwyd penglog y plentyn.

Teithio ar ôl-gerbydau

Dim ond os oes dulliau digonol, megis diogelwch ymylon, i'w hatal rhag syrthio oddi arno y gall plant o dan 13 oed deithio yn gyfreithlon ar ôl-gerbyd, neu lwyth sy'n cael ei gludo gan ôl-gerbyd. Dylech fabwysiadu'r un safonau os byddwch yn cludo plant hŷn.

Byddai diogelwch ymylon addas yn cynnwys penfyrddau, tinbrennau ac ochrau solet o leiaf 920 mm o uchder, neu reiliau amddiffyn. Os defnyddir rheiliau amddiffyn dylent:

- fod rhwng 920 mm a 1070 mm o uchder;
- cynnwys rheilen ganolog rhwng 460 mm a 535 mm o uchder;
- cynnwys tinbren sydd o leiaf 75 mm o uchder.

Gall y rheiliau amddiffyn fod â rhannau symudol neu rannau sy'n agor at ddibenion mynediad, ond dylent fod ynghau pan fydd yr ôl-gerbyd yn symud, a dylent roi yr

un lefel o ddiogelwch â gweddill y rheiliau amddiffyn. Dylech ystyried lenwi'r bylchau rhwng y rheiliau amddiffyn pan ddefnyddir ôl-gerbyd i gludo plant oedran cyn ysgol sy'n teithio gyda gweithwyr achlysurol neu blant ysgol ar daith.

Dim ond os byddwch chi a'r gyrrwr yn hyderus y byddant yn ufuddhau i gyfarwyddiadau i aros yn eu seddi y dylech gludo plant heb oruchwyliaeth. Os disgwylir i blant deithio ar lwyth dylai unrhyw ochrau fod yn uwch na'r llwyth hwnnw. Er mwyn bod yn effeithiol dylent roi'r un lefel o ddiogelwch â'r mesuriadau a nodwyd uchod.

Peidiwch byth â chaniatáu i blentyn:

- deithio ar far halio tractor neu ôl-gerbyd;
- teithio ar ôl-gerbyd pan fydd deunyddiau yn cael eu llwytho arno ac mae'r ôl-gerbyd yn symud.

Mae HSE yn cynhyrchu taflen wybodaeth am ddim (AIS36) ar gludo teithwyr ar ôl-gerbydau fferm (gweler 'Rhagor o wybodaeth').

Roedd nifer o blant yn cael eu cludo ar ôl-gerbyd bêls. Roedd un yn eistedd â'i goesau yn hongian dros ochr yr ôl-gerbyd, ac wrth iddo fynd drwy glwyd, gwasgwyd un goes rhwng postyn y glwyd a'r ôl-gerbyd.

Roedd bachgen ysgol yn teithio ar far halio cyfuniad o dractor ac ôl-gerbyd pan syrthiodd oddi arno ac aeth olwyn ochr i mewn yr ôl-gerbyd drosto. Bu farw o anafiadau mewnol.

Bydd HSE yn gorfodi'r gyfraith yn ymwneud â diogelwch plant yn drylwyr a bydd yn ystyried dwyn achos yn erbyn unrhyw un y ceir ei fod yn ei thorri – nid yw'r gyfraith yn eithrio rhieni na pherthnasau eraill.

Cerbydau sy'n symud

Mae cymysgu cerbydau a phobl bob amser yn risg oherwydd mannau dall. Mae plant yn wynebu perygl ychwanegol am na fydd modd eu gweld o gwbl efallai oni bai eu bod ymhell i ffwrdd o'r cerbyd, ee o deledrafodwr mae'n bosibl na fydd modd gweld plentyn bach os yw'r fraich yn ei safle cludo arferol.

Cofiwch feddwl am fannau dall ychwanegol a all gael eu creu pan fyddwch yn gosod cyfarpar ychwanegol ar y cerbyd. A fyddai drych wedi'i osod yn ofalus yn eich helpu i weld rownd y gornel? A allwch gyfyngu ar y lle sydd gan bobl i gerdded? Ar adegau prysur a fyddai system unffordd glir o gymorth?

Rheoli'r risgiau:

- Dylech bob amser ddefnyddio'r weithdrefn **stopio'n ddiogel** pan fyddwch yn gadael cerbyd heb neb i ofalu amdano, hy gwasgu'r brêc parcio, gollwng cyfarpar sydd wedi'i osod ar y tractor i lawr, diffodd yr injan, tynnu'r allwedd tanio allan a chloi'r tractor neu ei gau yn sownd mewn rhyw ffordd arall.
- Dylech leihau symudiadau cerbydau, ystyried cyfyngiadau cyflymder ac osgoi bacio cerbyd yn ôl heb allu gweld yn iawn drwy ddefnyddio banciwr neu dywysydd cymwys.
- Atgoffwch yrwyr i sicrhau y gallant stopio o fewn y pellter y gallant weld ei fod yn glir – mae hyn yn arbennig o bwysig wrth fynd rownd corneli neu wrth nesáu at rwystrau.
- Codwch arwyddion i atgoffa gyrwyr y gall plant fod gerllaw ac y dylent yrru yn briodol, a sicrhewch nad oes unrhyw blant gerllaw cyn i chi fynd i mewn i'r cerbyd.

Lladdwyd bachgen pum mlwydd oed drwy gael ei wasgu o dan olwynion cerbyd a oedd yn bacio'n ôl. Roedd yn chwarae gyda phlant eraill mewn buarth, yr oedd wedi cael ei wahardd rhag mynd yno. Ni welodd y gyrrwr y bachgen, er ei fod wedi bod yn ofalus a sylwgar ac er ei fod wedi defnyddio'r drychau bacio'n ôl yn gywir.

Dod i gysylltiad â pheiriannau

O dan y gyfraith gwaherddir plant o dan 13 oed rhag gweithredu'r rhan fwyaf o beiriannau fferm. Gall plant rhwng 13 ac 16 oed ddefnyddio rhai peiriannau'n ddiogel, ond dim ond os cânt eu hyfforddi'n gywir a'u goruchwylio a'u bod yn gymwys i wneud hynny. Gweler 'Plant rhwng 13 ac 16 oed' yn ddiweddarach yn y daflen hon am ragor o wybodaeth.

Mae plant yn cael eu denu at beiriannau ac yn aml nid ydynt yn ymwybodol o'r peryglon sy'n gysylltiedig â hwy. Felly mae peiriannau amaethyddol a ddefnyddir heb neb i ofalu amdanynt yn risg benodol. Cadwch blant ar eu pen eu hunain i ffwrdd oddi wrth weithgareddau fferm, a sicrhewch:

- fod pob peiriant yn cael ei warchod yn gywir;
- nad ydych yn caniatáu i blant eich helpu – gall peidio â thalu sylw am eiliad arwain at drasiedi;
- nad ydych yn gadael plentyn mewn peiriannau, arnynt neu'n agos atynt, gan gynnwys tractorau ac ati.

Cafodd bachgen naw mlwydd oed ei dynnu a'i draed yn gyntaf i mewn i gynaeafydd cnwd porthi a chollodd goes. Roedd wedi cael ei adael heb oruchwyliaeth gerllaw'r peiriant llonydd nad oedd wedi cael ei ddiffodd.

Syrthio

Mae plant yn chwilfrydig ac yn anturus wrth natur, sydd yn aml yn peri iddynt ddringo i lefelau uchaf adeiladau a strwythurau uchel megis seilos a phentyrrau o fêls, neu ddringo ysgolion o ran rhyfyg. Maent hefyd yn mynd i mewn i fannau gwaharddedig pan gaiff teganau megis peli eu colli. Gallant gael eu hanafu neu eu lladd, ee pan fydd y strwythur yn dymchwel, pan na allant ddringo i lawr mor hawdd ag y gwnaethant ddringo i fyny, neu pan fyddant yn dringo drwy reiliau amddiffyn a ddarparwyd ar gyfer oedolion neu ar hyd-ddynt.

Roedd bachgen wyth mlwydd oed yn chwarae gyda mab ffermwr ar y fferm. Am ryw reswm gwnaethant ddringo ar do sied lloi, a syrthiodd y bachgen 3.5m drwy ffenestr do blastig. Bu farw o ganlyniad i dorri ei benglog.

Meddyliwch am sut y gallwch atal plant rhag mynd ar y strwythurau hyn. Ystyriwch:

- guddio ffyn ysgolion sefydlog i atal plant rhag eu dringo (ee drwy glymu estyllen sgaffaldwaith ar eu traws);
- symud ysgolion cludadwy (gan gynnwys unrhyw ran isaf o ysgol sefydlog y gellir ei thynnu) fel na ellir eu defnyddio i gyrraedd mannau peryglus;
- storio ysgolion cludadwy fel eu bod wedi'u cadwyno/clymu'n sownd i atal defnydd anawdurdodedig;
- pentyrru bêls, paledi ac ati fel na all plant ddringo i strwythurau a fyddai fel arall yn anhygyrch;
- cloi adeiladau sy'n cynnwys peiriannau neu gyfarpar uchel neu eu cau'n sownd mewn rhyw ffordd arall.

Os gellir dringo pentwr o fêls, y risgiau allweddol i'w ystyried yw:

- syrthio oddi ar y pentwr o fêls a thrwyddo;
- y risg y caiff plant eu gwasgu gan fêls sy'n syrthio;
- bêls bach a ddefnyddir i wneud cuddfannau a all ddymchwel;
- tân – ystyriwch ffynonellau tanio.

Roedd merch wyth mlwydd oed yn chwarae ar y pentwr o fêls ar fferm, ac wrth iddi geisio dringo i lawr syrthiodd tua 3.5m ar chwalwr gwair oddi tanodd. Bu farw o anafiadau difrifol i'w phen.

Gwrthrychau sy'n syrthio

Pan fyddwch yn gwneud eich asesiad risg, cadwch lygad ar agor am bethau o amgylch y fferm a allai syrthio ar blant. Cofiwch y gall plant gael eu lladd neu eu hanafu gan wrthrychau na fyddai o bosibl yn achosi niwed difrifol i oedolion.

Cymerwch y camau canlynol:

- Dylech glymu peiriannau a chyfarpar trwm a allai syrthio yn dynn neu eu rhoi i orwedd, fel na allant syrthio ac anafu plant. Rhowch sylw arbennig i glwydi, ysgolion ac olwynion.
- Lle mae pentyrrau o fêls, paledi neu bren wedi'u storio, cymerwch ragofalon i atal plant rhag dringo arnynt. Os na fydd yn ymarferol codi ffens, ee ar gyfer pentwr o bren, adeiladwch y pentwr, neu defnyddiwch gynhalbyst, fel na fydd yn dymchwel.

Lladdwyd bachgen pedair blwydd oed pan syrthiodd olwyn ddeuol tractor yn pwyso 460 kg arno. Roedd yr olwyn yn pwyso heb ei chlymu yn erbyn wal ysgubor.

Dringodd mab ffermwr a oedd yn chwe blwydd oed ar glwyd a oedd wedi'i thynnu oddi ar ei cholynnau. Syrthiodd arno gan dorri ei benglog a bu farw. Roedd y ffermwr yn gwybod fod y glwyd heb ei chlymu a bod y bachgen yn chwarae arni.

Boddi a mygu

Mae llawer o blant yn cael eu lladd ar ffermydd drwy foddi mewn dŵr, slyri neu rawn pan fyddant yn mynd i fannau megis:

- storfeydd, seilos, hopranau neu byllau grawn;
- storfeydd slyri neu danciau elifiant;
- cronfeydd dŵr ar gyfer dyfrhau;
- trochfeydd defaid.

Fel rhan o'ch asesiad risg, ceisiwch eich rhoi eich hun yn sefyllfa'r plentyn. Beth fyddai'n ei ddenu i fan penodol? A yw'n debygol o gael ei ddefnyddio wrth chwarae gêm? A oes rhesymau eraill pam y byddai'n mynd yno? Peidiwch â:

- diystyru gallu plant i fynd i mewn i leoedd sy'n ymddangos yn anhygyrch;
- diystyru eu chwilfrydedd;
- cymryd yn ganiataol am na fyddech chi am fynd i mewn i le na fyddai'n ddeniadol i blentyn.

Roedd bachgen wyth mlwydd oed yn chwarae ar y grawn ym mhwll mewnlif storfa rawn pan gafodd ei dynnu i lawr i mewn iddo a'i fygu. Nid oedd grid wedi'i osod ar y pwll.

Roedd merch saith mlwydd oed yn chwarae ar ei phen ei hun yn y buarth gerllaw pwll grawn llawn agored a oedd yn cael ei wacáu gan daradr. Syrthiodd y plentyn i mewn i'r pwll ac fe'i boddwyd yn y grawn. Roedd wedi marw pan gafodd ei darganfod.

gyda'i frodyr mewn man â ffens o bob tu iddo. Gadawodd y man diogel, aeth i mewn i'r buarth a thrwy ddrws agored i mewn i sied. Syrthiodd i mewn i faddon trochi defaid a oedd wedi'i ddefnyddio yn gynharach y bore hwnnw. Nid oedd un o'r gorchuddion wedi'i roi yn ôl yn ei le a boddodd y bachgen.

Mygwyd bachgen naw mlwydd oed mewn porfa mewn clamp silwair ar fferm ei dad. Roedd yn chwarae gerllaw'r clamp ac yn helpu drwy agor tinbren yr ôl-gerbyd. Er i'w dad ddweud wrtho am symud i ffwrdd, parhaodd i chwarae yno ac fe'i claddwyd gan y borfa.

Er mwyn atal y cyfryw ddamweiniau rhaid i chi atal plant rhag mynd i mewn i fannau peryglus. Ystyriwch y rhagofalon canlynol:

- Codwch ffens gadarn 1.3 m o uchder o amgylch pob lagŵn, cronfa ddŵr ac ati i atal plant rhag mynd i mewn iddynt. Peidiwch ag anghofio clwydi a phwyntiau mynediad eraill.
- Gorchuddiwch bob pwll (ee pyllau grawn a throchfeydd defaid) a thyllau caead yn dynn i atal plant rhag syrthio i mewn iddynt. Mae gridiau â bylchau heb fod yn fwy na 65 mm rhyngddynt yn addas.
- Cadwch fynedfeydd i adeiladau sy'n cynnwys seilos, biniau grawn ac ati dan glo, ac eithrio pan fydd gwaith yn cael ei wneud.

Anafiadau a salwch a achosir gan anifeiliaid

Nid oes angen i anifeiliaid fod yn ymosodol i achosi niwed difrifol i blentyn neu ei ladd hyd yn oed. Mae'r peryglon sy'n gysylltiedig â gwartheg a cheffylau llawn dwf yn amlwg, ond mae defaid neu foch wedi achosi anafiadau difrifol, yn aml pan oeddynt fel petaent yn chwarae.

Y ffordd orau o leihau'r risg yn gysylltiedig ag anifeiliaid yw cadw plant yn bell oddi wrthynt, neu ganiatáu iddynt ddod i gysylltiad â hwy dim ond pan fyddant yn cael eu **goruchwylio'n uniongyrchol gan oedolyn**. Os byddwch yn mynd â phlant i weld anifeiliaid yn y cae sicrhewch eu bod yn aros yn agos atoch ac nad ydynt yn crwydro i ffwrdd yng nghanol yr anifeiliaid.

Er bod rhesymau addysgol a datblygiadol da dros annog plant i ddod i gysylltiad ag anifeiliaid, peidiwch byth â chaniatáu i blant, hyd yn oed pan fyddant gydag oedolyn, fynd i mewn i gorlannau neu gytiau rhydd sy'n cynnwys:

- unrhyw darw, baedd, march, hwrdd neu garw;
- buchod, hychod, cesig, ewigod neu famogiaid sydd ag epil newydd-anedig gyda hwy;
- unrhyw anifail arall sy'n debygol o fod yn ymosodol.

Gellir caniatáu i blant i fynd i mewn i gorlannau yn cynnwys anifeiliaid benywaidd dof heb epil ar yr amod eu bod yn cael eu goruchwylio'n uniongyrchol gan oedolyn. Os hoffech ddangos anifeiliaid ifanc i blant, sicrhewch fod yr anifail a'r plentyn y tu allan i'r gorlan, neu clymwch y fam neu symudwch hi o'r gorlan.

Cadwch blant allan o dai godro oni bai eu bod yn cael eu goruchwylio'n uniongyrchol.

Roedd mab ffermwr a oedd yn bum mlwydd oed yn helpu i ddod â buwch a llo o'r caeau i'r iard. Fe'i bwriwyd i'r llawr gan y fuwch, a safodd ar ei law gan achosi iddo golli rhan o'i fawd.

Gall anifeiliaid gludo clefydau neu organeddau hefyd a all gael eu trosglwyddo i bobl ac achosi salwch (milheintiau). Mae'r rhain yn cynnwys orff, sy'n achosi briwiau ar y croen, twymyn Q, sy'n achosi symptomau tebyg i'r ffliw, E.coli O157, a all achosi dolur rhydd difrifol neu waeth, a chryptosporidiwm a all achosi dolur rhydd hefyd. Mae ffermydd a storfeydd grawn yn aml yn denu fermin. Gall llygod mawr achosi afiechydon megis leptosbirosis.

Er mwyn cyfyngu ar y risg y caiff plant eu heintio gan y clefydau hyn, sicrhewch nad ydynt yn:

- dod i gysylltiad ag unrhyw anifail y mae'n amlwg ei fod yn dioddef o afiechyd neu haint megis sgôth, orff neu darwdenni;
- rhoi bysedd heb eu golchi yn eu cegau;
- bwyta nac yn yfed pan fyddant mewn cysylltiad ag anifeiliaid, ysgarthion, neu fannau y mae anifeiliaid wedi'u baeddu nac ar ôl hynny nes y byddant wedi golchi eu dwylo'n drylwyr â sebon a dŵr glân rhedegog, gan ddefnyddio papur glân neu dywel rholer i'w sychu.

Cafodd 13 o blant eu trin mewn ysbyty yn dilyn ymweliad agored â fferm lle daethant i gysylltiad â da byw a oedd yn cludo bacteria *E.coli* O157. Roeddynt wedi sugno eu bysedd a bwyta ciniawau pecyn heb olchi eu dwylo.

Sylweddau peryglus

Mae sylweddau peryglus mewn amaethyddiaeth yn amrywio o blaladdwyr a meddyginiaethau milfeddygol, gan gynnwys trochdrwyth defaid, i gemegion llaeth a diseimwyr gweithdai. Dylai pob un o'r sylweddau hyn bob amser fod yn ddiogel dan glo oni bai eu bod yn cael eu goruchwylio'n uniongyrchol ac yn barhaol.

Peidiwch byth â:

- gadael storfa blaladdwyr ar agor neu heb ei chloi heb neb i ofalu amdani;
- gadael plaladdwyr crynodedig mewn unrhyw gynhwysydd ac eithrio'r un gwreiddiol;
- rhoi plaladdwyr gwanhaëdig mewn unrhyw gynhwysydd y gallai plentyn feddwl, drwy gamgymeriad, ei fod yn cynnwys hylif arall, megis diod ysgafn;
- gadael unrhyw drochfa ddefaid sy'n cynnwys trochdrwyth heb ei gorchuddio ar ôl ei defnyddio – os bydd plentyn yn syrthio i mewn, yn ogystal â'r risg y bydd yn boddi, mae risg y bydd yn llyncu'r trochdrwyth;
- caniatáu i blant helpu i drin anifail gan ddefnyddio nodwyddau hypodermig.

Yn ogystal â pheryglon o waith dyn, mae sylweddau peryglus naturiol ar y fferm megis micro-organeddau (bacteria ac ati) a geir mewn tail, slyri, mathau gwahanol o lwch a phridd. Dylech bob amser sicrhau bod plant yn ymolchi cyn bwyta neu yfed. Peidiwch â chaniatáu i blant chwarae lle maent yn debygol o gyffwrdd â slyri ac ati os nad ydynt yn deall yr angen i gadw eu bysedd allan o'u cegau.

Aethpwyd â merch saith mlwydd oed i'r ysbyty ar ôl yfed plaladdwr gwanhaëdig o botel diod ysgafn heb label. Gwellodd ar ôl cael triniaeth.

Aethpwyd â bachgen ifanc i'r ysbyty ar ôl bod yn chwarae mewn hen sied storio lle'r oedd trochdrwyth wedi arllwys ar y silffoedd, y llawr ac eitemau a oedd yn cael eu storio ynddi. Nid oedd gan y sied unrhyw ddrws.

Tân

Mae plant yn aml yn gwneud cuddfannau mewn pentyrrau o wair neu wellt neu arnynt, ac weithiau maent yn mynd â matsis neu ganhwyllau gyda hwy. Mewn rhai achosion mae nifer o blant wedi cael eu lladd o ganlyniad i dân mewn pentwr o fêls.

Edrychwch am dystiolaeth bod plant yn chwarae mewn pentyrrau neu'n turio oddi tanynt. Os gwelwch arwyddion bod hyn yn digwydd, codwch ffens o amgylch y lle, neu cysylltwch â'r rhieni i ofyn iddynt gadw eu plant draw i'w atal rhag digwydd eto.

Gall plant eraill fod mewn perygl hefyd os gofynnir iddynt adeiladu coelcerthi ar y fferm neu os caniateir iddynt wneud hynny. Efallai na fyddant yn sylweddoli na ddylai hylifau hylosg byth cael eu defnyddio i gynnau neu adfywio coelcerth a gallant fynd yn rhy agos i'r tân neu gael eu dal yn annisgwyl gan y tân yn fflamio'n sydyn. Peidiwch â chaniatáu i blant helpu gyda choelcerthi, a sicrhewch bob amser eu bod wedi diffodd yn llwyr cyn eu gadael.

Canfuwyd bachgen 14 oed yn farw mewn ysgubor wellt. Roedd wedi bod yn chwarae gyda chanhwyllau yn y bêls.

Roedd merch 13 oed yn un o gr^wp o dresmaswyr yn eu harddegau a oedd yn chwarae mewn sied wair fawr a oedd yn cael ei defnyddio i storio bêls gwellt. Ni wyddai'r ffermwr eu bod yno. Ymddengys i'r ferch golli rhywbeth ac iddi ddefnyddio cannwyll wedi'i chynnau i chwilio amdano. Aeth y gwellt ar dân ac ni allai ddianc.

Ymwelwyr â'r fferm

Mae mwy a mwy o ffermydd yn arallgyfeirio ac yn agor i ymwelwyr. Dylai ffermydd sy'n agor yn rheolaidd ystyried trefniadau parhaol a chwrs achredu megis Cynllun Achredu Ymweliadau Addysgol Cefn Gwlad (CEVAS) (gweler www.face-online.org.uk/cevas).

Dylai fod gan deithiau trefnedig megis ymweliadau ysgol eu trefniadau iechyd a diogelwch eu hunain. Sicrhewch fod y trefnwyr yn ymwybodol o reolau iechyd a diogelwch eich fferm ac unrhyw fannau gwaharddedig. Bydd cydweithredu rhwng ymwelwyr a'r ffermwr sy'n eu derbyn yn sicrhau ymweliad llwyddiannus. Mae HSE yn cynhyrchu taflen wybodaeth am ddim (AIS23) i ffermwyr ac athrawon ar reoli ymweliadau addysgol (gweler 'Rhagor o wybodaeth').

Dylai ffermydd sydd ond yn agor yn achlysurol (megis Dydd Sul Agored ar y Fferm) ddefnyddio'r cyngor a roddir yn y daflen hon o leiaf, a dweud wrth ymwelwyr bod yn rhaid iddynt ddilyn eich cyfarwyddiadau diogelwch drwy gydol yr ymweliad.

Os ydych wedi asesu'n gywir fod rhannau o'ch fferm yn fannau diogel i blant chwarae ynddynt, efallai y byddant yn ddiogel i ymwelwyr. Ond cofiwch fod ymwelwyr a pherthnasau yn aml yn fwy awyddus i weld pethau newydd a gallant fentro i mewn i leoedd na fyddai eich plant yn mynd iddynt fel arfer – felly sicrhewch fod eich asesiad yn ystyried hyn.

Pan ganiateir i UNRHYW blentyn fynd i mewn i weithle'r fferm, bydd angen iddo gael ei oruchwylio'n uniongyrchol.

'Hawl i grwydro'

Os oes hawl tramwy sy'n mynd drwy'r buarth, mae angen i chi nodi llwybr mynediad diogel yn glir neu hysbysu pobl o'r risgiau mewn rhyw ffordd arall.

Nid ymdrinnir â'r hawl i grwydro na materion mynediad cyhoeddus cyffredinol yn y daflen hon, ond ymdrinnir â hwy gan yr asiantaethau cefn gwlad yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Ceir cyfeiriad gwefan gyswllt yn 'Rhagor o wybodaeth'.

Tresmasu

Gorfodir y gyfraith sy'n ymwneud â thresmasu gan yr heddlu, nid HSE. Efallai y byddwch am siarad â'ch swyddog heddlu cymunedol i gael cyngor. Os ydych yn gwybod bod plant a phobl ifanc yn tresmasu dylech ystyried sut y gallwch leihau unrhyw risgiau a sut y gallwch atal plant rhag dod i mewn i'ch gweithle:

- Darparwch ffensys, clwydi ac arwyddion rhybudd cadarn, addas sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda i atal plant rhag dod i mewn.
- Cadwch lygad ar agor am blant sy'n tresmasu a dywedwch wrthynt am adael. Os na fyddant yn gadael, rhowch y gorau i weithio a ffoniwch eu rhieni neu'r heddlu.
- Rhowch wybod am droseddwyr cyson i'w rhieni (os ydych yn eu hadnabod) a'r heddlu.

Arferai dau fachgen yn eu harddegau gyfarfod yn rheolaidd mewn ysgubor: buont farw mewn tân. Roedd un o'r bechgyn yn byw'n lleol ac roedd wedi tresmasu ar y fferm o'r blaen. Dangosodd ymchwiliad HSE fod camau rhesymol wedi'u cymryd i geisio eu cadw allan ac ni ddygwyd achos yn erbyn y ffermwr.

Plant rhwng 13 ac 16 oed

Cyn i bobl ifanc weithredu tractorau yn y gwaith dylent fynd ar gwrs hyfforddi a gynhelir gan ddarparwr hyfforddiant cymwys. Ni chaiff unrhyw blentyn o dan 13 oed yrru tractor nac unrhyw gerbyd amaethyddol arall. Caniateir i bobl ifanc dros 13 oed yrru tractor neu gerbyd amaethyddol arall, ond, p'un a yw yn y gwaith ai peidio, ni ddylid caniatáu i unrhyw berson ifanc yrru tractor na pheiriant hunanyredig oni bai:

- eu bod yn gallu cyrraedd yr offer llywio a'u bod yn ddigon cryf i'w gweithredu'n hawdd pan fyddant yn eistedd yn y sedd yrru;
- eu bod wedi cael hyfforddiant ar sut i yrru'r tractor ac ati yn ddiogel a'u bod yn llawn ddeall yr hyn y mae'r holl offer llywio yn ei wneud, a'r hyn a allai ddigwydd os cânt eu defnyddio'n anghywir;
- eu bod yn cael eu goruchwylio'n fanwl gan oedolyn cyfrifol;
- nad oes unrhyw blentyn na pherson ifanc arall ar y tractor ac ati, ac nad oes unrhyw un arall ar unrhyw ôl-gerbyd nac unrhyw gyfarpar arall sydd ynghlwm wrtho, ac eithrio at ddibenion goruchwylio neu gyfarwyddo;
- bod y rheolyddion ar gyfer y PTO, dyfeisiau hydrolig ac ar gyfer diffodd yr injan wedi'u nodi'n glir i ddangos eu diben, ac y caiff y tractor ei gynnal a'i gadw fel ei fod yn ddiogel iddynt ei weithredu;
- nad oes unrhyw lethrau serth, gwaith cloddio, glannau afonydd, ymylon llynnoedd neu byllau, ffosydd dwfn na dim byd tebyg yn y rhan o'r fferm lle bydd y tractor cael ei yrru.

Gall plant rhwng 13 ac 16 oed sydd wedi'u hyfforddi a'u cyfarwyddo'n gywir ac sy'n cael eu goruchwylio'n gywir ddefnyddio rhai peiriannau amaethyddol yn ddiogel i wneud tasgau syml. Mae nifer o beiriannau na ddylid caniatáu iddynt eu:

- gyrru;
- gweithredu na helpu i'w gweithredu;
- eu cynnal a'u cadw na'u glanhau (oni bai bod y peiriant a'u cydrannau yn llonydd, wedi'i roi ar wahân a bod yr allweddi wedi'u tynnu allan).

Y peiriannau hyn yw:

- cynaeafwyr neu beiriannau prosesu sy'n cael eu halio neu sy'n hunanyredig (ac eithrio peiriannau a gynlluniwyd i gael eu gweithredu gan bobl yn ogystal â'r gyrrwr, lle mae'r plentyn rhwng 13 ac 16 oed ar y llwyfan gweithredu ac o dan oruchwyliaeth oedolyn);
- ôl-gerbydau a pheiriannau sy'n cael eu halio sy'n cynnwys systemau cludo, llwytho neu wasgaru;
- peiriannau trin tir pweredig o unrhyw fath neu beiriannau pweredig â systemau torri, hollti, malu neu wasgu (gan gynnwys llifiau cadwyn);
- taenwyr cemegion o unrhyw fath, gan gynnwys cyfarpar a ddelir yn y llaw;
- peiriannau agor ffosydd a draeniau;
- peiriannau trafod deunyddiau gan gynnwys llwythwyr sgid-lywio, tryciau codi a cherbydau traciog;
- peiriannau pweredig sy'n cario grawn neu slyri;
- cyfarpar paratoi porthiant pweredig.

Nid yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr.

Peiriannau a gweithrediadau a all fod yn addas i blant rhwng 13 ac 16 oed:

- defnyddio tractor pŵer isel sy'n halio rholer neu ogau ar laswelltir gwastad heb unrhyw ffosydd;
- gweithredu crafwr slyri neu dail â motor sy'n cael ei reoli gan gerddwr;
- gweithio ar lwyfan archwilio a graddio cynaeafwr tatws (nid yn y safle gyrru).

Collodd gyrrwr tractor 14 oed reolaeth ar y tractor wrth yrru dros dyllau. Gwrthdarodd â pheiriant arall a throdd drosodd, gan dorri ei goes ac achosi anafiadau i'w ben.

Roedd bachgen 14 oed yn gyrru tractor ac roedd ffrind 16 oed gydag ef. Disgynnodd y ffrind o'r tractor ac aeth peiriant trin tir pweredig dros ei goes. Bu'n rhaid torri ei goes i ffwrdd.

Cerbydau sy'n addas ar gyfer pob math o dir (ATVs)

Pan fydd plant a phobl ifanc yn gweithredu ATVs i wneud gwaith, dilynwch y rheolau hyn:

- Dim ond ATVs o faint a phŵer priodol y dylech ganiatáu i blant dros 13 oed eu gyrru, a hynny ar ôl iddynt gael hyfforddiant ffurfiol ar ATV pŵer isel.
- **Edrychwch i weld beth yw argymhellion y gweithgynhyrchwr o ran yr oedran gofynnol ar gyfer gyrru eich ATV a dilynwch yr argymhellion hynny.**
- Sicrhewch fod cymhareb pwysau plentyn i bwysau'r ATV yn briodol, am fod trosglwyddo pwysau yn allweddol i drafod ATVs yn ddiogel.
- Dylech bob amser gyfeirio at lawlyfr y perchennog a labeli rhybudd ar y peiriant.
- Peidiwch byth â chludo plant fel teithwyr. Mae'n anghyfreithlon.
- Nid yw ATVs y mae'r gyrrwr yn eistedd arnynt â'i goesau o boptu iddynt wedi'u cynllunio i gludo teithwyr o unrhyw oedran a bydd hyn yn amharu ar eich gallu i reoli'r ATV.

Bydd asesiad risg yn nodi a oes angen gwisgo helmed addas wrth weithredu ATV yn y gwaith. Ymdrinnir â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau ehangach ar gyfer gweithredu ATVs yn ddiogel yn nhaflen wybodaeth AIS33 HSE (gweler 'Rhagor o wybodaeth').

Roedd bachgen 15 oed ar gynllun profiad gwaith yn helpu ffermwr i lanhau biniau grawn. Roedd y ffermwr hefyd yn goruchwylio'r gwaith o lwytho dwy lori yn yr iard. Wrth lwytho'r lori gyntaf, clywodd y ffermwr a gyrrwr y lori'r bachgen yn gweiddi. Rhuthrodd y ddau ohonynt i mewn i'r storfa rawn a'i ganfod wedi'i rannol gladdu mewn bin grawn ond ni allent ei achub.

Roedd bachgen dibrofiad 15 oed yn gyrru tractor wedi'i ffitio â wagen silwair lwythog yn ystod y nos, heb oleuadau. Ar lethr, trawodd y tractor bant yn y ddaear a throi drosodd. Torrodd y sedd yn rhydd o'i mowntinau, taflwyd y bachgen o gwmpas y tu mewn i'r caban a bu farw o anafiadau mewnol ac anafiadau i'w asgwrn cefn. Nid oedd y tractor wedi'i ffitio â gwregysau diogelwch.

Cyflogi plant a phobl ifanc

Mae'r Rheoliadau Rheoli yn ei gwneud yn ofynnol i chi asesu'r risgiau i iechyd a diogelwch pobl ifanc yn y gwaith a chymryd camau i'w diogelu, gan ystyried:

- diffyg profiad y gweithwyr ifanc;
- eu hymwybyddiaeth gyfyngedig o risgiau;
- eu hanaeddfedrwydd, yn gorfforol ac yn feddyliol.

Sicrhewch eu bod yn cael eu cyfarwyddo, eu goruchwylio a'u hyfforddi'n briodol, gan gofio eu galluoedd.

Mae cyfyngiadau ar y gwaith y gall pobl ifanc ei wneud. Pan fydd risgiau yn parhau ar ôl i fesurau rheoli gael eu rhoi ar waith, ni ddylid amlygu'r gweithiwr ifanc i unrhyw risg ychwanegol ac ni ddylid pennu'r gwaith hwn iddo.

Cyn cyflogi plentyn o oedran ysgol gorfodol (o dan 16 oed fel arfer) i wneud unrhyw weithgaredd gwaith mae'n rhaid i'r cyflogwr hysbysu rhiant y plentyn o ganfyddiadau'r asesiad risg a sut y caiff unrhyw risgiau a nodwyd eu rheoli. Mae hyn yn ychwanegol at unrhyw ofynion trwyddedu a osodir gan y swyddog addysg lleol.

Mae awdurdodau trwyddedu yn penderfynu ar y math o waith y byddant yn caniatáu i'r plentyn ei wneud, ac yn nodi am ba hyd y caniateir iddo weithio. Mae rhai awdurdodau lleol yn eithrio gweithrediadau tractor o'u trwyddedau.

Mae angen i chi ymgynghori â'ch awdurdod lleol neu'r swyddog cyflogaeth plant/lles addysg cyn caniatáu i blant o oedran ysgol gorfodol wneud gwaith ysgafn ar eich fferm. Mae is-ddeddfau awdurdodau lleol yn ei gwneud yn ofynnol i drwyddedu plant sy'n gweithio. Ni orfodir y gyfraith hon gan HSE.

Pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed

Hyd yn oed os bydd person ifanc wedi gadael ysgol, nid yw hynny'n golygu o reidrwydd y bydd yn gallu gwneud gwaith yn yr un ffordd ag oedolyn mwy profiadol nac y bydd yn ddigon aeddfed i wneud y gwaith hwnnw.

Er efallai i chi asesu bod tasg yn addas i berson ifanc ei gwneud, cofiwch y bydd angen i chi sicrhau ei fod yn cael yr hyfforddiant a'r cyfarpar cywir a'i fod yn cael ei oruchwylio'n ddigonol, yn enwedig os bydd yn dysgu sgiliau newydd. Sicrhewch ei fod yn cael ei oruchwylio hyd nes y bydd yn gymwys.

Roedd mab ffermwr, 16 oed, yn gweithio ar ei ben ei hun yn atgyweirio to bregus sied wartheg. Syrthiodd drwy ffenestr do i'r llawr concrid oddi tanodd a bu farw o anafiadau i'w ben.

Bu farw ciper dan hyfforddiant, 16 oed, ar ei ben ei hun pan aeth i fwydo ffesantod. Roedd yn gyrru ATV i lawr llethr â llwyth ar y rhesel flaen. Daethpwyd o hyd iddo yn gorwedd o dan y beic cwad a oedd wedi troi drosodd.

Efallai y bydd plant iau ar y fferm yn edmygu pobl ifanc yn y gwaith ac am eu hefelychu. Sicrhewch fod y bobl ifanc hyn yn y gwaith yn gwybod bod ganddynt yr awdurdod, a'r cyfrifoldeb, i anfon plant eraill (hyd yn oed blentyn eu cyflogwr) yn ôl o dan ofal oedolyn cyfrifol. Ni ddylid disgwyl iddynt wneud eu gwaith a goruchwylio plant iau ar yr un pryd.

Roedd cyflogai 17 oed yn helpu ffermwr i glirio landeri to. Cyrhaeddodd mab y ffermwr a oedd yn 13 oed. Roedd am fynd i weld beth roedd y bachgen 17 oed yn ei wneud ac aeth ar draws y to bregus i'r man lle'r oedd y bachgen hŷn yn gweithio. Aeth ei droed drwy'r to a syrthiodd i'r llawr concrid oddi tanodd lle bu farw.

Cofiwch fod pob enghraifft yn y daflen hon yn ddigwyddiad go iawn a'i bod yn un o nifer fawr o ddigwyddiadau tebyg. Gobeithio y bydd y cyngor hwn yn helpu i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel i sicrhau dyfodol ein diwydiant ffermio.

Rhagor o wybodaeth

Avoiding ill health at open farms: Advice to farmers (with teachers' supplement) Taflen Wybodaeth ar Amaethyddiaeth AIS23(rev1) HSE Books 2000 www.hse.gov.uk/pubns/agindex.htm

Carriage of passengers on farm trailers Taflen Wybodaeth ar Amaethyddiaeth AIS36 HSE Books 2000 www.hse.gov.uk/pubns/agindex.htm

Farmwise: Your essential guide to health and safety in agriculture MISC165 HSE Books 1999

Guidance on storing pesticides for farmers and other professional users Taflen Wybodaeth ar Amaethyddiaeth AIS16 HSE Books 1996 www.hse.gov.uk/pubns/agindex.htm

Preventing access to effluent storage and similar areas on farms Taflen Wybodaeth ar Amaethyddiaeth AIS9(rev) HSE Books 1997 www.hse.gov.uk/pubns/agindex.htm

Preventing accidents to children in agriculture Cod Ymarfer Cymeradwy L116 HSE Books 1999 ISBN 978 0 7176 1690 9

Safe use of all-terrain vehicles (ATVs) in agriculture and forestry Taflen Wybodaeth ar Amaethyddiaeth AIS33 HSE Books 1999 www.hse.gov.uk/pubns/agindex.htm

Ewch i www.countrysideaccess.gov.uk am ddolenni i'r Cod Cefn Gwlad a gwefannau ar gyfer Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Cod Mynediad i'r Awyr Agored ar gyfer yr Alban.

Gwybodaeth bellach

Mae cyhoeddiadau HSE sydd ar werth ac am ddim ar gael trwy archebu drwy'r post gan HSE Books, PO Box 1999, Sudbury, Suffolk CO10 2WA Ffôn: 01787 881165 Ffacs: 01787 313995 Gwefan: www.hsebooks.co.uk (Mae cyhoeddiadau HSE sydd ar werth ar gael hefyd o siopau llyfrau a gellir llwytho taflenni am ddim i lawr o wefan HSE: www.hse.gov.uk.) I gael gwybodaeth am iechyd a diogelwch ffoniwch Linell Wybodaeth HSE Ffôn: 0845 345 0055 Ffacs: 0845 408 9566 Ffôn testun: 0845 408 9577 e-bost: hse.infoline@natbrit.com neu ysgrifennwch i Wasanaethau Gwybodaeth HSE, Parc Busnes Caerffili, Caerffili CF83 3GG.

Mae'r daflen hon yn cynnwys nodiadau ar arfer da nad ydynt yn orfodol ond a allai fod yn ddefnyddiol wrth ystyried beth sydd angen i chi ei wneud.

Mae'r daflen hon ar gael mewn pecynnau o 10 sydd ar werth o Lyfrau HSE, ISBN 978 0 7176 6316 3. Ceir copïau unigol am ddim hefyd gan Lyfrau HSE.

© ⓗ *Hawlfraint y Goron* Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn am ddim, heblaw at ddibenion hysbysebu, ardystio neu ddibenion masnachol. Cyhoeddwyd gyntaf 09/08. Dylid cydnabod y ffynhonnell fel HSE.